

# **Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)**



## **PAPUR CEFNDIR 20 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO**

### **Rheoli Gwastraff**

**Awst 2012**

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll). Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

# CYNNWYS

	Tudalen
<b>1. Cyflwyniad</b> .....	4
<b>2. Cefndir</b> .....	4
2.1 Trosolwg Polisi.....	4
2.2 TAN 21.....	4
2.3 Yr Egwyddor Agosatrwydd a'r Hierarchaeth Gwastraff .....	4
2.4 Tuag at Ddyfodol Ddiwastraff – Dogfen Strategaeth Gwastraff Cymru (2010) .....	6
2.5 Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (CGRhGC).....	7
<b>3. Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Presennol</b> .....	7
3.1 Trosolwg .....	7
3.2 Cyfleusterau a chynlluniau presennol .....	7
3.3 Dynodi Llain Wahanu Tirlenwi .....	9
<b>4. Cynllunio ar gyfer Cynnydd Sgîl-gynhyrchion i'r Dyfodol</b> .....	9
4.1 Sgîl-gynhyrchion a Ragwelir yng Nghonwy ar gyfer 2013.....	9
4.2 Gofynion o ran tir .....	10
4.3 Lleoliad Cyfleusterau Rheoli Gwastraff.....	12
4.4 Rôl y CDLI wrth ddarparu tir ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff .....	13
<b>5. Casgliad</b> .....	13
<b>6. Atodiad 1 – Asesu addasrwydd tir ar gyfer cyfleusterau rheoli     gwastraff.</b> .....	14
6.1 Cyflwyniad .....	14
6.2 Meini Prawf Asesu Safle .....	14
6.3 Asesu Stoc Tir Cyflogaeth Presennol .....	16
6.4 Crynodeb .....	17
6.5 Asesu safleoedd CDLI .....	18
6.6 Mapiau Ardal Chwilio – Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru.....	21
6.7 Casgliad.....	22
<b>7. Atodiad 2 – Rhestr Termau</b> .....	24

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Dyma yn un o nifer o bapurau cefndir a baratowyd i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r CDLI yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir tan 2022. O'i fabwysiadu, bydd y CDLI yn darparu fframwaith ar gyfer pennu ceisiadau cynllunio trwy'r Fwrdeistref Sirol y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri.
- 1.2 Mae nifer fawr o gymhellion o blaid newid sut rydym yn rheoli'n gwastraff. Mae Cyfarwyddbau Ewropeaidd a'r Arweiniad Cenedlaethol, a gweithio ar lefel ranbarthol hefyd yn cyflwyno newid sylweddol wrth reoli gwastraff. Pwrpas y papur cefndir hwn yw gosod y cyd-destun a rhoi crynodeb o'r cymhellion hyn a materion lleol a fydd yn dylanwadu ar bolisi defnydd tir ac yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth i gefnogi polisiau gwastraff yn y CDLI.

## **2. Cefndir**

### **2.1 Trosolwg Polisi**

- 2.1.1 Wrth gynllunio ar gyfer rheoli gwastraff, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau cenedlaethol, h.y. Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff a'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol. Ar lefel ranbarthol, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried Adolygiad cyntaf Cynllun Gwastraff Rhanbarthol y Gogledd (Adolygiad cyntaf (CGRhG)).

### **2.2 TAN 21**

- 2.2.1 Mae TAN 21 yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar sut y dylai system cynllunio defnydd tir gyfrannu at reolaeth gwastraff cynaliadwy gyda nod i *"hwyluso rhagarweiniad fframwaith cynllunio defnydd tir cynhwysfawr, integredig a chynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru"*.


### **2.3 Yr Egwyddor Agosatrwydd a'r Hierarchaeth Gwastraff**

- 2.3.1 Mae TAN 21 yn nodi bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr Egwyddor Agosatrwydd wrth ystyried y gofynion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff a'u lleoliad. Mae hyn yn golygu y dylid trin a/neu gael gwared ar wastraff mor agos â phosibl at y ffynhonnell er mwyn osgoi'r effaith amgylcheddol diangen a gaiff ei hachosi trwy gludo gwastraff o un man i'r llall. Fodd bynnag, mae'r TAN hefyd yn

cydnabod bod trin a/neu gwaredu gwastraff mor agos â phosibl at y ffynhonnell yn dibynnu ar y symiau a'r mathau sy'n codi ar lefel leol a rhanbarthol.

2.3.2 Mae'r TAN hefyd yn cefnogi hierarchaeth lle ceir cymaint o werth â phosibl o wastraff. Yn yr achos cyntaf, dylid lleihau'r symiau gwastraff a gaiff eu cynhyrchu. Mae'r cam nesaf yn yr hierarchaeth yn ymwneud ag aildddefnyddio cynhyrchion gwastraff (un enghraifft fan hyn fyddai aildddefnyddio poteli gwydr). Yn dilyn hyn, ailgylchu, adfer ynni a dim ond wedyn y dylid ystyried gwaredu i dirlenwi neu losgi'n ulw heb adfer ynni. Mae'r hierarchaeth wastraff sy'n ymddangos yn TAN 21 wedi'i ddisodli gan yr un isod a gymerwyd o Ganllawiau Llywodraeth Cymru (LIC) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012 – "Arweiniad Ynghylch Gweithredu'r Hierarchaeth Gwastraff".

**Ffigur 1**



2.3.3 Mae TAN 21 hefyd yn nodi'r arweiniad o ran yr angen am gydlynu rhanbarthol, gydag awdurdodau cynllunio lleol Cymru'n gweithio mewn cydweithrediad â LIC i baratoi cynlluniau gwastraff ar gyfer pob un o'r rhanbarthau er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau yng Nghyfarwyddebau Gwastraff yr UE. Mae'n nodi cynnwys y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, ac yn nodi'r egwyddorion a'r technegau ar gyfer rheoli gwastraff.

## **2.4 Tuag at Ddyfodol Ddiwastraff – Dogfen Strategaeth Gwastraff Cymru (2010)**

2.4.1 Tuag at Ddyfodol Ddiwastraff yw'r ddogfen strategaeth gwastraff newydd ar gyfer Cymru. Wedi ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2010 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae'n nodi sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu adeiladu ar lwyddiannau Craff am Wastraff - Strategaeth Gwastraff Genedlaethol Cymru (2002). Mae'n nodi'r fframwaith tymor hir ar gyfer effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff rhwng rŵan a 2050. Mae'n nodi'r canlyniadau, targedau lefel uchel ac yn nodi agwedd gyffredinol tuag at gyflawni'r targedau hynny a chamau gweithredu allweddol eraill.

2.4.2 Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar ein pedwar cynllun sector i ddechrau, sef:

- Gwastraff bwrdeistrefol – gwastraff domestig yn bennaf ond gall gynnwys gwastraff gan fusnesau hefyd.
- Diwydiant gwastraff, isadeiledd a'r farchnad ailgylchu.
- Gwastraff adeiladu a dymchwel.
- Gwastraff adwerthu.

Bydd cynlluniau eraill yn dilyn gan gynnwys y sectorau bwyd a diod a'r sector cyhoeddus.

2.4.3 Mae dau darged allweddol y mae'r strategaeth yn anelu atynt:

1. Erbyn 2025 bydd sectorau yng Nghymru yn ailgylchu o leiaf 70% o'u gwastraff - mae hyn yn cynnwys busnesau, cartrefi a'r sector cyhoeddus. Bydd hyn yn mynd yn bell i'n helpu i gyflawni dim gwastraff.
2. Cyflawni dim gwastraff erbyn 2050. Bydd hyn yn golygu y bydd cynnyrch a gwasanaethau yn cael eu cynllunio fel eu bod yn dileu gwastraff yn gyfan gwbl.

2.4.4 Mae'r agwedd ar gyfer datblygu'r cynlluniau sector wedi ei esbonio yn fanylach yn y ddogfen hon. Er bod polisïau newydd a chamau gweithredu eto i'w datblygu, mae Craff Am Wastraff yn parhau i fod yn berthnasol, ac eithrio lle mae polisïau, targedau a chamau gweithredu wedi eu diweddarau yn benodol. Gweler <http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/100621wastetowardszerocy.pdf>

## **2.5 Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (CGRhGC)**

2.5.1 Mae Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhGC yn nodi lefel yr angen ledled y rhanbarth yn 2013. Mae'r Adolygiad yn darparu asesiad o'r mathau o gyfleuster rheoli gwastraff (y strategaeth technoleg) mwyaf cynaliadwy, ac ardaloedd chwilio sy'n addas o bosibl ar gyfer lleoliad y cyfleusterau rheoli gwastraff (y strategaeth ofodol). Gellir edrych ar Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhGC ar-lein yn:  
[www.walesregionalwasteplans.gov.uk](http://www.walesregionalwasteplans.gov.uk).

2.5.2 Cymeradwywyd Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhGC y Cyngor ym mis Gorffennaf 2008, ar yr amod y dylid ei ystyried wrth baratoi'r CDLI, ond ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i bennu lleoliad cyfleusterau rheoli gwastraff i'r dyfodol, nac fel arf i arwain penderfyniadau rheoli datblygu. Bydd Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhGC yn cael ei ddisodli gan y Cynllun Sector Gwastraff ar gyfer Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (gweler y cynllun drafft ar:  
<http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/110310wastecimeconsulten.pdf>)

## **3. Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Presennol**

### **3.1 Trosolwg**

3.1.1 Mae'r rhan hon o'r papur cefndir yn astudio lefel bresennol y ddarpariaeth cyfleusterau rheoli gwastraff (gan gynnwys crynodeb byr o'r mentrau a'r cyfleusterau rheoli gwastraff sydd ar waith), lefel y codiadau mewn gwastraff sydd a ragwelir i'r dyfodol, a faint o dir sydd angen i fodloni'r angen ar gyfer datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff i'r dyfodol.

### **3.2 Cyfleusterau a chynlluniau presennol**

3.2.1 Mae nifer o gyfleusterau a chynlluniau rheoli gwastraff eisoes yn bodoli yn y Fwrdeistref Sirol. Maent yn cynnwys:

- Dau safle Ailgylchu Gwastraff y Cartref yng Ngofer (ger Abergele) a Mochdre (mae'n rhoi cyfleuster i drigolion gael gwared ar wastraff y cartref sy'n rhy fawr i' gael gwared ohono trwy'r gwasanaeth casglu sbwriel arferol, yn ogystal â chyfleuster i gael gwared ar ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a'u compostio).
- Safleoedd banc ailgylchu (saith deg chwech ledled y Fwrdeistref Sirol).
- Canolfan swmpio (yng Ngofer).

- Cyfleusterau compostio yn Nolgarrog, Llanddulas a Chaerhun).
- Ailbrosesu cerbydau ar ddiwedd eu hoes / iard sgrap / metel (tri yn y Fwrdeistref Sirol).
- Safleoedd trosglwyddo gwastraff (saith yn y Fwrdeistref Sirol).
- Safle tirlenwi Llanddulas ar gyfer gwastraff bwrdeistrefol (ac eithrio deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu neu eu compostio).
- Safle tirlenwi inert yn Nhŷ Mawr, Abergele
- Pedwar depo ar gyfer cerbydau casglu sbwriel a cherbydau ailgylchu
- Ailgylchu o Ymyl y Palmant (casglu gwydr, tuniau, papur a gwastraff yr ardd bob pythefnos) 48,000 o gartrefi
- Cynllun arbrofol i gasglu plastig a gwastraff bwyd (gyda 7,000 o gartrefi o fis Mai 2009, i'w estyn i 48,000 o gartrefi o fis Medi 2010)
- Casglu gwastraff cartrefi (bob pythefnos o 50,000 o gartrefi, a bob wythnos o 3,000 o gartrefi)
- Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus
- Gwasanaeth sgip cymunedol
- Gwasanaeth casglu gwastraff clinigol
- Cynllun cofrestru plastigion ffermydd mewn cydweithrediad ag Asiantaeth yr Amgylchedd (yng Ngofer)
- Gwasanaeth casglu sbwriel gwastraff masnachol
- Gwasanaeth casglu deunyddiau masnachol i'w hailgylchu (tuniau, gwydr, plastig, papur, cardbord, gwastraff bwyd)

**Tabl 1 – Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Presennol - Lle Heb fod yn Dirlenwi Blynyddol Trwyddedig yng Nghonwy (tunelli metrig) 2005/2006<sup>1</sup>**

<b>Ailgylchu Gwastraff y Cartref</b>	<b>Ailbrosesu cerbydau ar ddiwedd eu hoes / metel sgrap</b>	<b>Trosglwyddo</b>	<b>Cyfanswm</b>
33,023	5,598	155,837	194,458

3.2.2 Mae safleoedd a amlinellwyd fel safleoedd diogelu presennol ar y map cynigion eisoes wedi'u datblygu'n llawn ac nid oes rhagor o le ar gael ar gyfer datblygu sylweddol ar y safleoedd hyn. Oddeutu 30ha o dir B2 sydd ar gael sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y dyfodol. Er hynny, cydnabyddir na fyddai'r

<sup>1</sup> Data o Adolygiad 1af NWRWP.



holl dir hwn ar gael ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn unig gan fod angen categorïau eraill o ddefnydd dosbarth B e.e. B1, B8 yn y lleoliadau hyn. Mae'r dyraniadau ar gyfer rheoli gwastraff yn diwallu'r angen am gyfleusterau rheoli gwastraff fel y dynodwyd yn Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhGC; er hynny bydd hyblygrwydd yn y Cynllun i ganiatáu defnyddio tir diwydiannol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff a phennir pob cais ar ei rinweddau ei hun (gweler polisi MWS/7).

### **3.3 Dynodi Llain Wahanu Tirlenwi**

3.3.1 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynghori y dylai unrhyw ddatblygiadau fod o leiaf 250 meter oddi wrth unrhyw safle tirlenwi. Y perygl mwyaf i ddatblygiad ger safleoedd tirlenwi yw nwyon tirlenwi mudol yn treiddio trwy'r graig waelodol a mynd i mewn i eiddo o'r ddaear. Nid oes tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn Llanddulas, ond calchfaen carbonifferaidd yw'r creigiau gwaelodol ac rydym yn gwybod bod nwyon yn gallu treiddio trwyddo. Mae ceisio canfod neu ragweld llwybrau posibl i'r nwyon dreiddio trwyddynt yn gallu bod yn hynod o anodd. O bryd i'w gilydd mae problemau hefyd gydag aroglau, llwch, sŵn a phla. Mae gan y parth byffer tirlenwi ddau bwrpas. Un yw diogelu amwynder preswylwyr a defnyddwyr tir sensitif eraill; y llall yw sicrhau fod gweithredwyr tirlenwi yn gwneud eu gweithgareddau arferol heb gael eu cyfyngu gan bresenoldeb defnyddwyr tir sensitif. Felly, dynodwyd parth byffer 250 metr o amgylch y safle tirlenwi i sicrhau mai datblygiad priodol yn unig sy'n cael ei leoli yn yr ardal hon. Dylid tynnu sylw Swyddog Iechyd Amgylcheddol y Cyngor a'r Asiantaeth Amgylchedd at bob cais am ddatblygiad preswyl (ac eithrio gan berchennog), cyflogaeth, datblygiad twristiaeth a chyfleusterau cymunedol yn y llain wahanu. Bydd ceisiadau sy'n arwain at niwed sylweddol i amwynder neu ddiogelwch, neu a fyddai'n cyfyngu yn annerbyniol ar weithrediad safle tirlenwi, yn cael eu gwrthod.

## **4. Cynllunio ar gyfer Cynnydd Sgîl-gynhyrchion i'r Dyfodol**

### **4.1 Sgîl-gynhyrchion a Ragwelir yng Nghonwy ar gyfer 2013**

4.1.1 Er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli gwastraff i'r dyfodol, mae'n ddarvoudus i amcangyfrif lefel sgîl-gynhyrchion gwastraff i'r dyfodol. Cynhaliodd Grŵp Gwastraff Rhanbarthol y Gogledd (GGRhG) ymarfer rhagweld ar gyfer y flwyddyn 2012/13, gan ystyried tueddiadau'r gorffennol, rhagamcaniadau'r boblogaeth, effaith debygol ymgyrchoedd gwella ymwybyddiaeth a mesurau lleihau gwastraff

eraill. Fel gydag unrhyw ymarfer rhagweld mae'n bosibl fod ffactorau na ellir mo'u rhagweld sy'n effeithio ar sgîl-gynhyrchion gwastraff a'r patrymau o ddelio â'r gwastraff hwnnw.

- 4.1.2 Ystyriodd GGRhG nad oedd yn realistig rhagweld y tu hwnt i'r flwyddyn 2013 oherwydd polisi, newidiadau rheoleiddiol a thechnoleg, y byddai pob un ohonynt yn effeithio ar lefel y sgîl-gynhyrchion gwastraff. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer y 15 mlynedd nesaf, lle disgwylir llawer o newidiadau mewn tueddiadau a thechnolegau gwastraff yn yr amser hwnnw, fodd bynnag, gellir casglu'r newidiadau hynny trwy brosesau monitro ac adolygu'r CDLI.
- 4.1.3 Mae Tabl 2 isod yn dangos y sgîl-gynhyrchion gwastraff a ragwelir yn 2013 yng Nghonwy (a gymerir o Ddewis 0 – Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol sy'n tybio y bydd yr holl wastraff gweddilliol yn cael ei anfon i'w dirlenwi).

**Tabl 2 - Sgîl-gynhyrchion gwastraff a ragwelir fesul tunelli metrig yng Nghonwy yn 2013<sup>2</sup>**

Bwrdeistrefol	Adeiladu a Dymchwel	Masnachol	Diwydiannol	Amaethyddol	Cyfanswm
117,812	223,390	55,453	8,557	2,694	407,906

- 4.1.4 Ar ôl sefydlu lefel y sgîl-gynhyrchion gwastraff a ragwelir ar gyfer 2013, comisiynwyd Asiantaeth yr Amgylchedd gan Grŵp Technegol Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, i gynnal Arfarniad Cynladwyedd o'r gwahanol fathau o dechnolegau y gellir eu defnyddio i reoli gwastraff yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i'r Arfarniad Cynladwyedd yn: [www.walesregionalwasteplans.gov.uk](http://www.walesregionalwasteplans.gov.uk).

## **4.2 Gofynion o ran tir**

- 4.2.1 Mae Tabl 3 yn amlygu'r saith dewis mwyaf cynaliadwy (fel y nodwyd yn adolygiad cyntaf y CGRhG) a'r arwynebedd tir a amcangyfrifir sy'n ofynnol ar gyfer pob dewis.

<sup>2</sup> Data o Adolygiad 1af CGRhGC.

**Tabl 3 – Gofynion Arwynebedd Tir a Amcangyfrifir mewn hectarau yng Nghonwy ar gyfer cyfleusterau i wasanaethu mwy nag un awdurdod lleol, ar sail y saith dewis mwyaf cynaliadwy.<sup>3</sup>**

Math o gyfleuster	Gofyniad arwynebedd tir (ha)
Dewis 2a – Pyrolysis	4.22
Dewis 2c – Llosgi'n ulw ac adennill ynni	7.81
Dewis 3a – Triniaeth Fiolegol Fecanyddol a Phyrolysis i ddilyn	6.95
Dewis 3b – Triniaeth Fiolegol Fecanyddol a Nweiddio i ddilyn	9.93
Dewis 3c - Triniaeth Fiolegol Fecanyddol a llosgi'n ulw ac adennill ynni i ddilyn	10.92
Dewis 3d – Triniaeth Fiolegol Fecanyddol gyda thanwydd i ddefnydd ynni oddi ar y safle	7.40
Dewis 4d - Awtoclaw wedi'i ddilyn gan danwydd i ddefnydd ynni oddi ar y safle	3.97

4.2.2 Yn ogystal â chyfleusterau a fyddai'n gallu gwasanaethu mwy nag un awdurdod cynllunio lleol, mae Adolygiad cyntaf CGRhG yn argymhell bod y tir hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfleusterau a fydd yn gwasanaethu ardal yr awdurdod lleol yn benodol. Amlinellir hyn yn Nhabl 4.

**Tabl 4 – Amcangyfrif o'r Gofynion Arwynebedd Tir mewn hectarau yng Nghonwy ar gyfer cyfleusterau i wasanaethu'r awdurdod lleol yn 2013<sup>4</sup>**

Gorsaf Drosglwyddo	Safleoedd Ailgylchu Gwastraff y Cartref	Compostio gyda Chafn Troi Agored	Ailgylchu deunyddiau adeiladu a dymchwel	Cyfanswm
<b>5.01</b>	<b>0.00</b>	<b>1.48</b>	<b>4.34</b>	<b>10.83</b>

4.2.3 Ar sail y dewis sy'n gofyn bod y rhan fwyaf o'r tir yn nhabl 3 – h.y. dewis 3c - Triniaeth Fiolegol Fecanyddol wedi'i ddilyn gan losgi'n ulw ac adennill ynni, yn ogystal â faint o dir sy'n ofynnol ar gyfer cyfleusterau lleol yn nhabl 4, mae Adolygiad 1af CGRhGC yn amcangyfrif y dylai Conwy ddarparu **21.75 ha** o dir i fodloni anghenion y Fwrdeistref Sirol a rhanbarth Gogledd Cymru am gyfleusterau rheoli gwastraff. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfleusterau rheoli gwastraff presennol ac mae'n cynnwys 50% o orddarpariaeth i ddarparu hyblygrwydd ar

<sup>3</sup> Data o Arfarniad Cynaliadwyedd i gydfynd ag Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhGC.

<sup>4</sup> Data o Adolygiad 1af CGRhGC.

gyfer y farchnad a hapddigwyddiadau. Ers cyhoeddi Adolygiad cyntaf CGRhG, cytunwyd bod angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud 20% o orddarpariaeth yn unig (gan arwain at gyfanswm gofyniad tir o **17.4 ha** yng Nghonwy).

4.2.4 Dylid nodi nad yw'r gofyniad tir uchod yn cynnwys tir y mae ei angen ar gyfer safleoedd tirlenwi, mae hyn wedi'i asesu ar wahân ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhapur Cefndir 26 –Astudiaeth Ddichonoldeb Tirlenwi.

4.2.5 Er y bydd cynlluniau ailgylchu'n cael effaith sylweddol ar leihau gwastraff sy'n mynd yn syth i safleoedd tirlenwi, mae dal angen dod o hyd i ateb ar gyfer gwastraff gweddilliol (hynny yw, gwastraff sy'n weddill i gael ei waredu ohono ar ôl aildddefnyddio, ailgylchu, compostio ac adennill deunyddiau ac ynni). Cynhelir trafodaethau rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol ledled Gogledd Cymru i ddod o hyd i ateb rhanbarthol ar gyfer rheoli gwastraff gweddilliol. Mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru (PTGGGC) yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac yn cynllunio sut i drin gwastraff gweddillol yn y dyfodol drwy gaffael ymateb gan y diwydiant rheoli gwastraff. Mae'r Tîm Prosiect ar hyn o bryd yn adolygu a gwerthuso atebion posibl a disgwylir y bydd y gwasanaeth ar waith erbyn 2015. Mae'r amserlen hon yn cyd-fynd â'r lle disgwylidig sy'n weddill yn y safle tirlenwi yn Llanddulas, y disgwylir a fydd wedi'i lenwi erbyn 2015 ar y cynharaf.

### **4.3 Lleoliad Cyfleusterau Rheoli Gwastraff**

4.3.1 Defnyddiodd yr ymarfer bwrdd gwaith Chwiliad Ardaloedd yn Adolygiad cyntaf CGRhG ddata strategol lefel fras yn unig ac nid ystyriodd unrhyw safle penodol yn fanwl. Arweiniodd hyn at gynnwys nifer o safleoedd anaddas yn y Chwiliad Ardaloedd cyntaf, tra caiff rhai safleoedd addas o bosibl eu heithrio. Fel y nodwyd yn Rhan 10.3.3 Dogfen Graidd Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhG, ni fydd y mapiau Chwiliad Ardaloedd yn cael eu defnyddio naill ai ar gyfer Rheoli Datblygu nac fel arweiniad terfynol i ddewis safle i'w gynnwys yn y CDLI.

4.3.2 Yn lle hynny, cynhaliwyd arfarniad safle mwy trylwyr wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Gellir dod o hyd i asesiad ac arfarniad y safle, gan gynnwys yr asesiad safleoedd cyflogaeth at ddibenion rheoli gwastraff yn Atodiad 1.

#### **4.4 Rôl y CDLI wrth ddarparu tir ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff**

4.4.1 Fel cynllun defnydd tir, mae gan y CDLlau y cwmpas i ddiogelu tir a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion rheoli gwastraff (a elwir yn 'diogelu') ac mae ganddynt y pwerau hefyd i ddyrannu safleoedd newydd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol. Felly, caiff y darpariaethau canlynol eu cynnwys yn y CDLI:

- Polisi ar sail meini prawf ar gyfer yr holl gyfleusterau rheoli gwastraff newydd sy'n ystyried angen a nodwyd gan y CGRhG, angen sy'n codi ar lefel lleol, lleoliad y safle ac addasrwydd y cynnig yn y lleoliad hwnnw, a hyrwyddo adennill gwerth gwastraff.
- Creu hyblygrwydd ym mholisïau CDLI sy'n rheoli'r defnydd o dir cyflogaeth i alluogi cydleoeli cyfleusterau rheoli gwastraff ochr yn ochr â defnyddiau cyflogaeth addas, lle bo hyn yn briodol.
- Dyraniadau tir mewn mannau addas (Gofer a Llanddulas fel yr amlinellir ar y map cynigion).

4.4.2 Gellir dod o hyd i'r rhesymeg sy'n sail i ddewis Gofer a Llanddulas fel mannau ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff i'r dyfodol, ynghyd â methodoleg asesu safleoedd yn Atodiad 1. Er bod cyfanswm arwynebedd y dyraniadau'n mesur rhyw 22 ha, mae'r rhesymau sy'n ymwneud â thopograffi, a'r ffaith bod safle Llanddulas mewn chwarel wag, yn golygu ei bod hi'n debygol na fydd yn ymarferol datblygu'r tir hwn i gyd. Bydd y defnydd tir yn cael ei fonitro o ran diwallu'r angen am gyfleusterau newydd

### **5. Casgliad**

5.1 Mae'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar wastraff a thirlenwi, a thargedau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru'n creu her sylweddol ar gyfer sut rydym yn rheoli'n gwastraff nawr, ac yn y dyfodol. Gan ystyried cymhellion Ewropeaidd a chenedlaethol, y gwaith a wneir ar lefel ranbarthol yn Adolygiad 1<sup>af</sup> CGRhG, ac ymchwil bellach a wnaed ar lefel leol, bydd angen i'r CDLI gynnwys darpariaethau priodol i sicrhau bod digon o dir ar gael hyd at 2022.

5.2 Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys polisïau i adennill gwerth gwastraff yn ystod y broses ddatblygu (lle mae cynllunio'r yn gallu i ddylanwadu ar hyn), diogelu tir y cyfleusterau presennol, hyblygrwydd y polisïau tir cyflogaeth i annog atebion mwy arloesol i reoli gwastraff mewn mannau priodol, a dyraniadau tir newydd ar gyfer cyfleusterau gwastraff yn Llanddulas a Gofer.

## 6. Atodiad 1 – Asesu addasrwydd tir ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

### 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae'r agwedd wrth asesu safleoedd gwastraff i'w cynnwys yn y CDLI wedi ei rhannu yn ddau brif gam i ystyried y cyngor yn y polisi cynllunio cenedlaethol ar wastraff, a'r cyngor yn Adolygiad 1af CGRhGC (2008).

6.1.2 I ddechrau, fel y cefnogwyd gan Adolygiad 1af CGRhGC, mae tir diwydiannol presennol sydd ar gael wedi ei asesu ar gyfer addasrwydd i gynnal cyfleusterau rheoli gwastraff. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd asesiad o safleoedd a dderbyniwyd fel rhan o'r CDLI 'galw am safleoedd' ym mis Rhagfyr 2006. Mae nifer fawr o'r safleoedd hyn wedi'u diystyru oherwydd y cyfyngiadau a nodwyd eisoes yn rhan dau'r papur cefndir hwn, ond, mae safleoedd a gredir sy'n gyffredinol addas ar gyfer cyflogaeth neu ddatblygiad defnydd cymysg wedi eu hasesu ar gyfer eu potensial i gynnal cyfleusterau rheoli gwastraff.

6.1.3 Yn olaf, cynhaliwyd astudiaeth arall i ganfod safle tirlenwi addas wrth gefn gan RPS (ymgyngorwyr ar ran y Cyngor). Roedd y chwiliad am safle yn destun methodoleg wahanol i'r un sy'n ymddangos yn y ddogfen hon. I gael manylion pellach, cyfeiriwch at Bapur Cefndir 26 - Astudiaeth Hyfywdra Tirlenwi

### 6.2 Meini Prawf Asesu Safle

6.2.1 Mae'r meini prawf a ddefnyddir wrth asesu addasrwydd safleoedd rheoli gwastraff wedi'u hamlinellu isod:

- **Lleoliad** – A yw'r safle mewn lleoliad cynaliadwy yn agos at ffynhonnell y sgîl-gynhyrchion gwastraff, gan ystyried yr 'egwyddor agosatrwydd'?
- **Maint a chapasiti'r safle** – mae maint safle yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys dimensiwn, mynediad, math o gyfleuster ayb. Dim ond safleoedd sy'n 0.5 ha neu fwy fydd yn cael eu hystyried ar gyfer eu dyrannu.
- **Isadeiledd cludiant a mynediad** – Yn y rhan fwyaf o achosion mae angen mynediad da ar gyfer cyfleusterau gwastraff oherwydd yr angen i ddefnyddio cerbydau trwm.

- **Tir a ddatblygwyd eisoes neu dir glas** - Er y ffafir tir a ddatblygwyd eisoes, bydd tir glas a thir llwyd yn cael eu hystyried oherwydd diffyg safleoedd tir llwyd sydd ar gael.
- **Risg llifogydd** - Lle nodwyd fod risg llifogydd, cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Adran Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor (gan ystyried Asesiad Risg Llanw Conwy - CTFRA) i benderfynu a fydd defnydd o'r fath yn addas yn y lleoliad hwn.
- **Manteision defnyddiau cyfagos** - A fyddai cyfleuster rheoli gwastraff yn y lleoliad hwn o fantais i'r defnyddiau o'i amgylch? (h.y. a ellir defnyddio cynnyrch gwastraff o weithgareddau cyfagos a/neu gael ynni o wastraff i ddarparu ffynonellau ynni i weithgareddau cyfagos?)
- **Effaith ar ddefnydd cyfagos** – Bydd agosatrwydd at ddatblygiad preswyl yn gyfyngiad – yn enwedig ar gyfer cyfleusterau awyr agored.
- **Gwendid dŵr tir** – Bydd safleoedd sydd ar ddyrhaen fawr yn cael eu hystyried ar gyfer cyfleusterau cynwysedig a chompostio gwyntres agored yn unig, yn amodol ar asesiad risg pellach gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- **Effaith weledol** - er y gellir tirweddu i liniaru effaith weledol cyfleuster gwastraff, efallai na fydd yn briodol i ddatblygu safleoedd penodol oherwydd eu heffaith gweledol ar y dirwedd neu ddefnyddiau cyfagos.
- **Effaith ar yr amgylchedd hanesyddol** – Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i effaith posibl ar gofadail, adeilad neu barc/gardd hanesyddol.
- **Effaith ar gadwraeth natur** – Yng Nghonwy mae sawl safle dynodedig statudol fydd yn cael eu hosgoi. Ond, ystyrir safleoedd a ddynodwyd yn lleol hefyd.
- **Ansawdd tir amaethyddol** - dylid diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg, felly, er bod tir graddfa 1 a 2 wedi ei osgoi yn gyffredinol, mae tir o'r fath wedi ei ystyried mewn rhai achosion.
- **Dosbarth defnydd** – A yw'r safle/tir yn manteisio o gael caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd dosbarth B2, neu a yw'n addas ar gyfer defnydd B2?
- **Gallu i ddarparu** - A fyddai'r tirlfeddianwyr o blaid lleoli cyfleuster rheoli gwastraff yn y lleoliad hwn?

### 6.3 Asesu Stoc Tir Cyflogaeth Presennol

6.3.1 Mae Adolygiad 1af yr NWRWP yn awgrymu y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried eu stoc tir cyflogaeth presennol, yn enwedig tir gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer defnydd diwydiannol dosbarth B2 wrth asesu safleoedd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw'r datblygiadau mewn technoleg ac mae cyflwyniad deddfwriaeth, polisiau ac arferion newydd yn golygu nad yw cyfleusterau rheoli gwastraff modern a chyfleusterau adfer adnoddau yn edrych nac yn gweithredu yn wahanol i unrhyw adeilad diwydiannol arall.

6.3.2 Oherwydd y rhesymau uchod, gall sawl safle cyflogaeth dosbarth defnydd B2 'diwydiannol cyffredinol' fod yn lleoliadau addas ar gyfer y genhedlaeth newydd o gyfleusterau rheoli gwastraff mewnol yn unol â Strategaeth Technoleg Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (Adolygiad 1af NWRWP, 2008).

#### 6.3.3 **Asesiad o addasrwydd safleoedd tir cyflogaeth sydd ar gael i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.**

Defnyddiwyd yr Adroddiad Monitro Tir Cyflogaeth a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2009 (Gweler Papur Cefndir 13) fel sail ar gyfer yr asesiad safle. Aseswyd pob safle gyda chapasiti gan ddefnyddio'r meini prawf a nodwyd yn rhan 2. Mae'r manylion perthnasol wedi'u nodi isod:

**Tabl 5**

Safleoedd	Dosbarth Defnydd	Defnydd Cyfagos	Lleoliad	Maint (ha)	Materion perthnasol eraill	Argymhelliad
Lynx Express, Penrhyn Avenue, Links Rd, Llandrillo yn Rhos	B1	Preswyl	Lleoliad cynaliadwy yn agos at sgîl-gynhyrchion gwastraff	0.13	-	Ddim yn addas – safle yn rhy fach, mewn ardal preswyl yn bennaf ac yn addas ar gyfer defnydd B1



Llandudno 'on line', Ffordd Conwy, Cyffordd Llandudno	B1, B2	Swyddfeydd, man preswyl a man gwerthu ceir.	Lleoliad cynaliadwy yn agos at sgîl-gynhyrchion gwastraff	3.2	-	Ddim yn ymarferol - Ardal sylweddol o'r safle yn cael ei farchnata ar hyn o bryd ar gyfer swyddfeydd a rhagwelir y bydd gweddill y safle hefyd yn cael ei ddatblygu fel B1
Tŷ Gwyn, Llanrwst	B1, B2, B8	Ystod o ddefnydd diwydiannol a masnachol (ar barc diwydiannol)	Lleoliad gwledig gyda mynediad da ond gall wasanaethu anghenion Llanrwst a'r setliadau cyfagos	1.54	Parth risg llifogydd C2 (nid yw'n addas ar gyfer taflu gwastraff)	Ddim yn ymarferol – Credir fod y tir wedi ei brynu gyda'r bwriad o'i farchnata ar gyfer unedau diwydiannol dechreuol.
Tir Llwyd, Bae Cinmel	B1, B2, B8	Ystod o ddefnyddiau diwydiannol a masnachol (ar safle parc diwydiannol)	Lleoliad cynaliadwy yn agos at sgîl-gynhyrchion gwastraff	27.9	Parth risg llifogydd C1	Gall fod yn addas mewn egwyddor. Cyflenwad tir mawr ar gael (yn amodol ar FCA boddhaol)
Parc Busnes Abergele (cam 1)	B1	Swyddfeydd, canolfan feddygol newydd fwriedig. Preswyl.	Lleoliad cynaliadwy yn agos at sgîl-gynhyrchion gwastraff	0.38		Anaddas – mae'r caniatâd gwreiddiol ar gyfer swyddfeydd a diwydiannau ysgafn - ac nid defnydd dosbarth B2
Parc Busnes Abergele (cam 2)	B1	Preswyl	Lleoliad cynaliadwy yn agos at sgîl-gynhyrchion gwastraff	9.5		Anaddas – mae'r caniatâd gwreiddiol ar gyfer swyddfeydd a diwydiant ysgafn – nid defnydd dosbarth B2.

## 6.4 Crynodeb

6.4.1 Y safle mwyaf ffafriol sy'n diwallu'r meini prawf a nodwyd yn y fethodoleg yw Tir Llwyd ym Mae Cinmel. Mae safleoedd diwydiannol eraill fel Tŷ Gwyn yn Llanrwst yn cyflawni rhan fwyaf o'r meini prawf ond yn gyfyngedig oherwydd risg llifogydd a chynlluniau darparu ar gyfer eu defnydd i'r dyfodol. Yn ogystal â'r safleoedd banc tir, mae safleoedd cyflogaeth presennol yn bodoli yn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n

bosibl y bydd y rhain ar gael fel safleoedd ar hap yn ystod cyfnod y cynllun. Mewn achosion o'r fath, gellid defnyddio Polisi EMP/3 y CDLI i asesu cynigion am gyfleusterau rheoli gwastraff.

## 6.5 Asesu safleoedd CDLI

Aseswyd addasrwydd safleoedd CDLI ar gyfer eu datblygu. Pwrpas y rhan hon yw amlinellu'r safleoedd a all fod yn addas ar gyfer defnydd cyflogaeth/diwydiannol/gwastraff, ac asesu eu haddasrwydd yn benodol ar gyfer defnydd rheoli gwastraff yn unol â'r meini prawf isod:

**Tabl 6**

Safle	Maint (ha)	Cyfyngiadau	Argymhelliad a chamau gweithredu
E3 – De Ddwyrain Abergele	8	<p><b>Tir amaethyddol</b> – Credir fod y safle yn cynnwys nifer <u>helaeth</u> o'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg.</p> <p><b>Isadeiledd a mynediad Cludiant</b> – Angen ffordd gyswllt newydd (Rhuddlan Road i Ffordd Llan San Siôr).</p> <p><b>Defnydd potensial</b> – Mae Adran Adfywio'r Cyngor a Llywodraeth Cymru wedi nodi os bydd y safle yn cael ei ddatblygu, mai <u>defnydd B1</u> fydd y mwyaf addas.</p> <p><b>Effaith ar ddefnydd cyfagos</b> – Mae'r safle yn union ger dyraniad tai strategol yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd.</p>	Nid yw'r safle tir glas hwn yn addas ar sail effaith weledol ac effaith ar ddefnydd cyfagos a gynigwyd yn y CDLI. <b>Cam gweithredu:</b> Peidio ei dyrannu fel safle rheoli gwastraff yn y CDLI.
E13 – Tir i'r Gogledd o Gofer	6	<p><b>Risg Llifogydd</b> – safle wedi ei nodi fel tir glas mewn parth risg llifogydd C1 ac yn methu'r prawf cyfiawnhad yn TAN 15.</p> <p><b>Effaith ar gadwraeth natur</b> - Mae'r safle yn gorgyffwrdd â'r cefn gwlad agored. Efallai y bydd effaith posibl ar gyrsiau dŵr a ddefnyddir gan rywogaethau wedi'i diogelu, ac felly argymhellir cynnal arolwg o rywogaethau wedi eu diogelu.</p> <p><b>Effaith ar ddefnydd cyfagos</b> – Ddim yn addas ar gyfer cyfleusterau awyr agored fel compostio gwyntres oherwydd ei agosrwydd at anheddau i'r de o'r safle.</p>	Awgrymwyd y safle gan y perchennog fel cyfleuster ailgylchu. Ond, mae'r safle wedi ei nodi fel tir glas mewn risg llifogydd C1 ac felly mae'n methu'r prawf cyfiawnhad a nodwyd yn TAN 15.

E14 – Tir i'r De o Tir Llwyd	8	<p><b>Risg Llifogydd</b> - safle a ddsbarthwyd fel tir glas mewn parth risg llifogydd C1 ac yn methu'r prawf cyfiawnhad yn TAN 15.</p> <p><b>Defnydd potensial</b> – Gall y safle fod yn estyniad i Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd.</p>	<p>Awgrymwyd y safle fel estyniad posibl i Tir Llwyd. Ond, mae'r safle wedi ei ddsbarthu fel tir glas mewn parth risg llifogydd C1 ac felly mae'n methu y prawf cyfiawnhad a nodwyd yn TAN 15.</p>
E21 oddi ar Ffordd Tywyn	2	<p><b>Risg Llifogydd</b> – mae'r safle yn union y tu ôl i'r amddiffynfeydd llifogydd ac mewn parth llifogydd C1.</p> <p><b>Effaith ar ddefnydd cyfagos</b> – Mae'r safle wedi ei gyfyngu oherwydd lleoliad y ceblau tan ddaear (a'r parth byffer angenrheidiol o 20 metr) o'r fferm wynt alltraeth.</p>	<p>Mae datblygiad llawer o'r safle hwn wedi ei gyfyngu oherwydd cyfyngiadau ar ddatblygiad uwchben y ceblau tan ddaear sy'n rhedeg drwy'r safle ac yn cefnogi'r fferm wynt alltraeth.</p> <p><b>Camau gweithredu:</b> Ddim i'w ddynodi fel safle rheoli gwastraff yn y CDLI.</p>
E24 – Cyn Safle Tirlenwi Gofer	16	<p><b>Risg Llifogydd</b> – mae'r safle y tu allan i'r ardal llifogydd difrifol. Dim gwrthwynebiad gan y Gwasanaethau Amgylcheddol nac Asiantaeth yr Amgylchedd.</p> <p><b>Effaith ar gadwraeth natur</b> - Ni fydd CCC yn cefnogi'r datblygiad <u>helaeth</u> yma, er y gall estyniad cyfyngedig o'r man ailgylchu yn y gornel de ddwyrain fod yn dderbyniol. Argymhellir cynnal arolwg rhywogaethau a ddiogelir.</p>	<p>Mae'r safle wedi'i awgrymu gan y tîr feddiannwr ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Mae'r safle mewn lleoliad addas, yn agos at sgîl-gynhyrchion gwastraff ac yn agos at orsaf swmpio, gorsaf trosglwyddo a chyfleuster amwynder dinesig. Credir hefyd y gall y safle tir llwyd hwn fod o fantais i ddefnyddiau cyfagos.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> Ei gynnwys fel dyraniad ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd.</p>
E25 (a) Ger Chwarel Llanddulas. (Defnydd a awgrymwyd gan y tîr feddiannwr - Parc-Eco/ailbrosesu	2	<p><b>Gwendid Dŵr Daear</b> - Mae'r safle dros ddyfrhaen fawr sy'n fregus iawn. Dim gwrthwynebiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer parc eco/ailbrosesu, ond byddai angen amodau caeth yn y caniatâd cynllunio.</p> <p><b>Isadeiledd a mynediad cludiant</b> - Mae asesiad a gynhaliwyd gan Atkins yn dangos y byddai angen diwygiadau <u>sylweddol</u> i'r A547 i gael mynediad i'r safle.</p>	<p>Nododd yr asesiad cludiant broblemau mynediad sylweddol yn ymwneud â'r safle tir llwyd. Byddai angen gwneud addasiadau sylweddol i'r briffordd a all wneud cynllun posibl yn anymarferol.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> Peidio ei ddyrannu fel safle rheoli gwastraff yn y CDLI.</p>

<p>E25 (b) Yn Chwarel Llanddulas. (Defnydd a awgrymwyd gan y tirlfeddiannwr - Cyfleuster Rheoli Gwastraff Integredig)</p>	<p>5.7</p>	<p><b>Gwendid Dŵr Daear</b> - Mae'r safle dros ddyfrhaen fawr sy'n fregus iawn - dim gwrthwynebiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cyfleuster rheoli gwastraff, ond byddai angen amodau caeth yn y caniatâd cynllunio.</p>	<p>Mae'r safle wedi ei awgrymu gan y tirlfeddiannwr/ gweithredwr y safle fel safle addas ar gyfer cyfleuster rheoli gwastraff. Mae'r safle mewn lleoliad addas, yn agos at sgil-gynhyrchion gwastraff, ac yn agos at y cyfleuster tirlenwi a chompostio. Credir hefyd y bydd y safle tir llwyd o fantais i ddefnyddiau cyfagos  <b>Cam gweithredu:</b> Ei gynnwys fel dyraniad ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd.</p>
<p>E25 (c) Yn Chwarel Llanddulas. (Defnydd a awgrymwyd gan y tirlfeddiannwr - estyniad i safle tirlenwi)</p>	<p>34.6</p>	<p><b>Gwendid Dŵr Daear</b> - Mae'r safle dros ddyfrhaen fawr sy'n fregus iawn, ac felly byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn <u>gwrthwynebu</u> i dirlenwi gwastraff gweddilliol yn y lleoliad hwn.  <b>Effaith ar gadwraeth natur</b> – safle yn destun asesiad. Effaith posibl ar galchfaen Llanddulas, Coedwig SSSI Castell Gwrych a rhywogaethau wedi eu diogelu fel yr ystlum pedol leiaf.</p>	<p>Mae'r safle wedi ei awgrymu gan y tirlfeddiannwr/ gweithredwr y safle fel safle sydd o bosibl yn addas fel estyniad i'r safle tirlenwi presennol, ond mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthwynebu i'r cynnig hwn.  <b>Cam gweithredu:</b> Cadw a diogelu'r ardaloedd tirlenwi a chompostio presennol, ond peidio dynodi'r safle fel estyniad i'r safle tirlenwi yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn unol â chynngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd.</p>
<p>CR15 Esgyryn, Cyffordd Llandudno</p>	<p>10.2</p>	<p><b>Defnydd potensial</b> - Mae Adran Adfywio'r Cynngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi os bydd y safle yn cael ei ddatblygu, mai <u>defnydd B1</u> byddai fwyaf addas.   <b>Isadeiledd a mynediad cludiant</b> - Byddai mynediad o Narrow Lane (ddim yn ddelfrydol ar gyfer y math o gludiant fyddai'n cael ei gynhyrchu gan gyfleuster rheoli gwastraff).   <b>Effaith ar ddefnydd cyfagos</b> – Mewn ardal preswyl yn bennaf.</p>	<p>Ni chredir fod y safle tir glas yn addas oherwydd rhesymau mynediad, gwrthdaro â defnydd bwriedig y dyfodol (B1 a datblygiad preswyl), a defnydd preswyl presennol ger y safle.  <b>Cam gweithredu:</b> Peidio ei ddynodi fel safle rheoli gwastraff yn y CDLI – Gweler hefyd asesiad safle ar gyfer safleoedd cyflogaeth/defnydd cymysg.</p>

<p>Diogelu Dynodiad Cludiant Rheilffyrdd, Cyffordd Llandudno.</p>		<p><b>Risg Llifogydd</b> – Cynhaliwyd SCFA i edrych ar y safle tir llwyd hwn o safbwynt defnyddio rhan o'r safle hwn fel lleoliad ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, yn enwedig trosglwyddo gwastraff.</p>	<p>Gallai'r safle tir llwyd hwn fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff penodol, er enghraifft, trosglwyddo gwastraff.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> Sicrhau nad yw'r polisi diogelu yn y CDLI STR/6 yn cyfyngu ar ddefnyddiau sy'n addas ar gyfer cludiant rheilffyrdd fel trosglwyddo gwastraff. Gweler y safle yn nhestun atodol Polisiau MWS/5 a 6.</p>
<p>R45 Gwaith Alwminiwm Dolgarrog</p>		<p><b>Lleoliad</b> – Mae'r safle tir llwyd hwn mewn lleoliad gwledig, ymhell o'r ardal drefol a ffynonellau gwastraff mawr.</p> <p><b>Effaith ar ddefnydd cyfagos</b> – Credir y bydd y safle yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau hamdden a thwristiaeth – efallai na fydd cyfleuster rheoli gwastraff yn addas ar gyfer pob un o'r defnyddiau hyn.</p>	<p>Ni chredir fod y safle tir llwyd hwn yn addas oherwydd ei lleoliad gwledig, a'r effaith posibl ar elfennau eraill y safle defnydd cymysg gan gynnwys defnydd hamdden a thwristiaeth.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> Peidio ei ddyrannu fel safle rheoli gwastraff yn y CDLI – Gweler hefyd y tabl asesu safle ar gyfer asesiad safle defnydd cyflogaeth/cymysg.</p>

## 6.6 Mapiau Ardal Chwilio – Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru

6.6.1 Fel rhan o strategaeth ofodol Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRWP), lluniwyd mapiau ardal chwilio ar gyfer cyfleusterau mewn adeilad ac awyr agored. Defnyddiodd yr ymarfer bwrdd gwaith hwn ddata strategol eang yn unig ac ni ystyriodd unrhyw safle penodol mewn manylder.

6.6.2 Mae'r Map Ardaloedd Chwilio ar gyfer cyfleusterau mewn adeilad wedi nodi Gofer a Llanddulas fel ardaloedd chwilio ail lefel. Roedd yr ymarfer Ardal Chwilio wedi diystyru'r lleoliadau hyn ar gyfer cyfleusterau awyr agored oherwydd eu hagosrwydd at yr SSSI – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Llanddulas) a gwendid dŵr daear. Ers hynny cynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ganfod pa mor bwysig yw'r materion hyn.

6.6.3 Mae CCC wedi nodi nad yw'r lleoliad yn Llanddulas o ddiddordeb iddyn nhw ond

yn argymhell y dylid cynnal asesiad tuag at ochr ddeheuol chwarel Llanddulas i ganfod yr effaith ar yr SSSI a Rhywogaethau a Ddiogelir gan Ewrop. Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthwynebu i egwyddor sefydlu cyfleusterau rheoli gwastraff integredig yn Llanddulas cyn belled bod amodau cynllunio priodol yn cael eu sefydlu i atal llygredd yn ystod y gweithgareddau. Mae CCC wedi nodi rhai problemau gyda'r safleoedd yn Gofer o ran gorgyffwrdd â'r cefn gwlad, a'r angen i gynnal arolygon rhywogaethau a ddiogelir, ond nid ydynt wedi mynegi gwrthwynebiadau penodol yn y cam asesu safle ymgeisydd. Hefyd, oherwydd swyddogaeth y CDLI wrth fonitro defnydd tir, gellir sicrhau CCC y byddai'r safleoedd hyn yn cael eu datblygu ar sail angen, a dim ond yn dilyn asesiad manwl i sicrhau bod math, graddfa a lleoliad y cyfleuster yn y lleoliadau hyn yn briodol.

## **6.7 Casgliad**

6.7.1 Yn dilyn asesiad o'r safle, daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnwys y safleoedd canlynol fel dyraniadau yn benodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y CDLI:

E25b Chwarel Llanddulas

E24 Cyn Safle Tirlenwi Gofer

6.7.2 Mae mapiau llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi nad oes perygl llifogydd yng Ngofer. Er bod y safle wedi'i glustnodi ar gyfer trosglwyddo gwastraff, dylai'r safle datblygu barhau i fod tu allan i'r raddfa tebygolrwydd llifogydd 1 mewn 200 mlynedd. Mae model Risg Llifogydd y Llanw Conwy yn dangos mai dyma'r sefyllfa. Casgliad Asesiad Goblygiadau Llifogydd Strategol yw bod y safle yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff penodol (gweler BP/17 - 'Asesiad Goblygiadau Llifogydd Strategol Conwy')

6.7.3 Yn ogystal â'r dyraniadau hyn, gallai tir arall fod yn addas (yn amodol ar bolisiau yn seiliedig ar feini prawf). Sef:

6.7.4 Diogelu Cludiant Rheilffyrdd, Cyffordd Llandudno – mae potensial i'r safle hwn gynnal cyfleusterau Rheoli Gwastraff fel Trosglwyddo Gwastraff. Bydd y safle'n

dal wedi'i ddynodi ar gyfer diogelu cludiant rheilffordd, ond bydd y testun polisi yn STR/6 yn annog defnyddiau ategol fel trosglwyddo gwastraff. Hefyd, bydd y testun atodol ar gyfer polisiâu MWS/5 a 6 yn cyfeirio at botensial y safle cludiant rheilffyrdd a ddiogelir ar gyfer defnydd fel Trosglwyddo Gwastraff.

- 6.7.5 Mae potensial hefyd y gall Tir Llwyd ym Mae Cinmel gynnal cyfleusterau rheoli gwastraff, ond, mae cyfyngiadau risg llifogydd yn y lleoliad hwn. O ystyried cyfyngiadau o'r fath, ni fyddai'n ddoeth i ddyrannu'r safle hwn ar gyfer rheoli gwastraff.
- 6.7.6 Gallai safleoedd cyflogaeth presennol (yn enwedig defnyddiau diwydiannol B2) a allai ddod ar gael fel safleoedd ar hap hefyd fod yn addas ar gyfer rheoli gwastraff. Bydd Polisiâu EMP/3 ac WS/7 yn cefnogi'r ymagwedd hon.

## 7. Atodiad 2 – Rhestr Termau.

<b>Gwastraff Amaethyddol</b>	Gwastraff a gynhyrchir ar safle amaethyddol o ganlyniad i weithgaredd amaethyddol.
<b>Treuliad anerobig</b>	Proses lle anogir deunydd pydradwy i dorri i lawr yn absenoldeb ocsigen. Rhoddir y deunydd mewn llestr caeedig a dan amodau rheoledig mae'r gwastraff yn torri i lawr yn nodweddiadol i dreuliwr, gwirod a bio-nwy.
<b>Awtoclaf</b>	Techneg ar gyfer prosesu gwastraff trwy ei sterileiddio gyda stêm gan gynhyrchu cynnwys ffibr biomas uchel.
<b>Safle Amwynder Dinesig</b>	Cyfleuster a ddarperir gan yr awdurdod lleol lle gall y cyhoedd ddod â gwastraff y cartref i'w ailgylchu neu ei waredu. Mae'r gwastraff yr ymdrinnir ag ef yn cynnwys eitemau swmpus fel celfi, nwyddau gwyn, gwastraff o'r ardd a gwastraff cartref cyffredinol yn ogystal â deunydd i'w ailgylchu.
<b>Gwastraff masnachol</b>	Gwastraff sy'n codi o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon, hamdden neu adloniant, ac eithrio gwastraff diwydiannol a gwastraff o gyfleusterau bwrdeistrefol.
<b>Compostio</b>	Proses adennill adnoddau lle caiff gwastraff pydradwy (fel gwastraff gardd a gwastraff y gegin) ei drawsnewid, ym mhresenoldeb ocsigen o'r aer, yn ddeunydd gronnog sefydlog sydd, o'i daenu ar y tir, yn gwella strwythur y pridd ac yn cyfoethogi'r cynnwys maethol.
<b>Gwastraff Adeiladu a Dymchwel</b>	Gwastraff sy'n codi o adeiladu, atgyweirio, cynnal a chadw a dymchwel adeiladau a strwythurau. Mae'n cynnwys brics, concrid, craidd caled, isbridd ac uwchbridd gan mwyaf, ond gall hefyd gynnwys symiau o bren, metel, plastigion ac yn achlysurol deunydd gwastraff arbennig (peryglus).



<b>Gwaredu</b>	Yn ôl yr hierarchaeth gwastraff, y gwaredu terfynol ar wastraff trwy dirlenwi, tirgodi neu losgi'n ulw heb adfer ynni.
<b>Nwyeiddio</b>	Proses triniaeth thermol sy'n cynnwys cynhesu gwastraff ym mhresenoldeb aer neu stêm ar dymereddau uchel i dorri'r gwastraff i lawr sy'n cynnwys carbon i ludw a nwy gyda chyn lleied o ocsigen â phosibl.
<b>Gwastraff y Cartref</b>	Mae'n cynnwys gwastraff o rowndiau casglu o gartrefi, o wasanaethau fel ysgubo'r strydoedd, casglu gwastraff swmpus, casglu sbwriel, casglu gwastraff peryglus o'r cartref a chasglu gwastraff o'r ardd ar wahân. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwastraff o safleoedd amwynder dinesig a gwastraff wedi'u gwahanu wrth y ffynhonnell a gesglir ar gyfer ailgylchu neu gompostio trwy gynlluniau biniau ailgylchu neu ollwng a chynlluniau ymyl palmant
<b>Gwastraff Diwydiannol</b>	Gwastraff o unrhyw ffatri ac o unrhyw safle a ddefnyddir gan ddiwydiant (ac eithrio mwyngloddiau a chwareli).
<b>Gwastraff Anadweithiol</b>	Diniwed, heb greu difrod, heb fod yn wenwynig. Rhywbeth nad yw'n andwyol i iechyd na'r amgylchedd.
<b>Casglu o Ymyl y Palmant</b>	Unrhyw gasglu deunyddiau'n rheolaidd i'w hailgylchu neu wastraff o'r safle, gan gynnwys casgliadau o safleoedd masnachol a diwydiannol yn ogystal â chartrefi.
<b>Tirlenwi</b>	Cyfleusterau trwyddedig lle caiff gwastraff ei adael yn barhaol ar gyfer gwaredu.
<b>MBT (Triniaeth Fiolegol Fecanyddol)</b>	Term generig ar gyfer technolegau didoli a gwahanu mecanyddol a ddefnyddir ar y cyd â phrosesau trin biolegol fel compostio.
<b>Gwastraff Bwrdeistrefol</b>	Gwastraff cartref ac unrhyw wastraff arall a gesglir gan yr Awdurdod Casglu Gwastraff, fel parciau

bwrdeistrefol a gwastraff gerddi, gwastraff glanhau traethau, gwastraff masnachol neu ddiwydiannol y mae'r awdurdod casglu'n gyfrifol amdano, a gwastraff sy'n deillio o glirio deunyddiau sydd wedi'u tipio'n anghyfreithlon.

**Egwyddor Agosatrwydd** Mae'r egwyddor hon yn awgrymu y dylid cael gwared ar wastraff mor agos at le y cafodd ei gynhyrchu â phosibl.

**Pyrolysis** Proses triniaeth thermol sy'n defnyddio tymereddau uchel i dorri gwastraff i lawr gan gynnwys carbon i ludw a nwy heb ocsigen.

**Deunydd ailgylchu / y gellir ei ailgylchu** Deunyddiau y gellir eu hailgylchu ar ôl eu defnyddio

**Ailgylchu** Mae'n golygu prosesu gwastraff, naill ai i'r un cynnyrch neu un gwahanol. Gellir ailgylchu llawer o wastraff nad yw'n beryglus fel papur, gwydr, cardbord, plastigion a metelau sgrap. Gall cwmnïau arbenigol hefyd ailgylchu gwastraff peryglus fel toddyddion.

**Gostwng** Lleihau swm neu berygl gwastraff a gynhyrchir o broses. Mae'n lleihau'r angen am adnoddau sylfaen ac felly'n gostwng y gost hefyd.

**Grŵp Gwastraff Rhanbarthol (RWG)** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb o baratoi, monitro a diwygio'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol i Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru. Caiff y grŵp ei arwain gan Fforwm Aelodau o gynghorwyr o'r 8 awdurdod cynllunio lleol yn y rhanbarth, a gefnogir gan Grŵp Technegol o swyddogion o lywodraeth leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chyrff llywodraethol eraill, a chynrychiolwyr o'r diwydiant gwastraff a grwpiau amgylcheddol.

**Gwastraff Gweddilliol** Gwastraff sydd ar ôl i'w waredu ar ôl aildefnyddio,

	ailgylchu, compostio ac adennill deunyddiau ac ynni.
<b>Nodyn Cyngor Technegol 21 (TAN21)</b>	Mae TAN 21 (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) yn rhoi arweiniad ar sut dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at reoli gwastraff cynaliadwy
<b>Gorsaf Drosglwyddo</b>	Cyfleuster ar gyfer danfon gwastraff i'w gwahanu neu swmpio cyn iddo gael ei dynnu ymaith i'w adfer a/neu waredu.
<b>Sgîl-gynhyrchion Gwastraff</b>	Swm y gwastraff a gaiff ei greu mewn ardal benodol dros gyfnod penodol o amser
<b>Compostio gan droi cafn</b>	Dadelfennu erobig gwastraff pydradwy wedi'i rwygo priodol trwy ddefnyddio pentyrrau unionlin agored a elwir yn 'gafnau troi'. Mae'r broses yn golygu troi gwastraff yn fecanyddol hyd nes i'r tymheredd a ddymunir a'r amserau preswyllo gael eu cyflawni i alluogi diraddio effeithiol.